y Goleuad

EGLWYS BRESBYTERAIDD CYMRU · GOLEUNI Y BYWYD

CYFROL CXXXVII RHIF 38 | DYDD GWENER, MEDI 18, 2009 | Pris 40c

MENTER A MENTOR NEWYDD

Ar ddechrau mis Gorffennaf daeth cynulliad da ynghyd ar gyfer cyfarfod o'r Henaduriaeth yng Nghapel Bethesda, Yr Wyddgrug dan lywyddiaeth y Parchedig D Ben Rees, Lerpwl. Cafwyd defosiwn pwrpasol iawn gan Mr Geraint Jones, Capel Penybryn, Treffynnon gan ddyfynnu adnodau sy'n cynnwys rhai o bob oedran – plant, pobl ifanc a rhai hŷn. Roedd hyn yn arweiniad da i'r mater dan sylw ar y noson hon sef cyflwyniad gan Miss Wendy Swan. Mae Wendy wedi ei phenodi i swydd Gweithiwr Ysgolion Sir y Fflint dan nawdd Ymddiriedolaeth Agathos (mewn cysylltiad gyda Undeb y Gair/Scripture Union). Eglurodd ychydig am ei chefndir – mae'n wreiddiol o Dreuddyn ger Yr Wyddgrug ac yn gyn-ddisgybl yn Ysgol Maes Garmon. Mae'n cael gwahoddiad rheolaidd i bump ysgol i gynnal gwasanaethau rheolaidd – ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg. Bu o gwmpas yr ysgolion yn ddiweddar yn dosbarthu llyfryn bach i'r rhai sy'n symud i ysgol uwchradd ym mis Medi (llyfryn sydd ar gael yn Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg). Mae hefyd wedi cael cyfle i helpu mewn gwersi mewn rhai ysgolion e.e Addysg Bersonol a Chymdeithasol trwy drafod materion o safbwynt Cristnogol gyda'r bobl ieuanc. Caiff hefyd gyfle i gymysgu gyda'r plant ar y buarth ac mewn clybiau amser cinio. Mae wrthi'n datblygu'r ochr fugeiliol i'w gwaith ac mae wedi hyfforddi i

Wendy Swan,
Gweithiwr Ysgolion yn Sir y Fflint

fod yn fentor yn ddiweddar. Cafodd aelodau o'r Henaduriaeth oedd yn bresennol gyfle i roi enw a chyfeiriad ar bapur os oeddent eisiau gwybod mwy am y prosiect cyffrous hwn sy'n cael cefnogaeth ariannol gan sawl eglwys ac enwad (gan gynnwys ein Henaduriaeth ni), a chalondid oedd gweld nifer fawr o enwau arno. Roedd gwrando ar Wendy yn chwa o awyr iach a dymunwn bob bendith iddi yn ei gwaith pwysig gyda'r plant a'r bobl ieuanc. Am ragor o wybodaeth gellir cysylltu gyda: Wendy Swan, Ymddiriedolaeth Agathos, Capel Pendref, Pwll Glas, Yr Wyddgrug CH7 1RA.
E-bost: wendy-agathos@hotmail.co.uk
Ffôn: 01352 757477.

Yn ystod ein cyfarfod cafwyd ambell adroddiad gan gynnwys Pwyllgor Eglwys a Chymdeithas fu'n trafod y canllaw i ysgolion ar addoli i ddisgyblion 16+. Fe glywsom am y bygythiad sydd i addoliad ar gyfer yr oedran hwn a chawsom ein atgoffa am sefydliadau eraill yn yr ardal sydd angen gofal Cristnogol e.e colegau addysg bellach. Cafwyd adroddiad bywiog o'r Gymdeithasfa yn y Gogledd a hynny ar ffurf dyddiadur personol gan Norman Closs Parry. Roedd tair seiat ymweld wedi digwydd hefyd – dau neu dri o gynrychiolwyr yr Henaduriaeth yn ymweld â phob eglwys yn eu tro – y tro hwn cafwyd adroddiad o Seion, Penbedw, Capel y Berthen, Licswm a Chapel Mawr, Rhosllannerchrugog.

Cafwyd coffâd i gyn-flaenor ar ddiwedd y cyfarfod, sef y diweddar T Meirion Morgan, Rhiwabon a fu'n flaenor yng Nghapel Rhagluniaeth, Rhiwabon cyn iddo gau sawl blwyddyn yn ôl.

Marian Lloyd Jones.

TRIP YR YSGOL SUL I'R WYBRNANT

Plant yr Ysgol Sul

Rhai o Athrawon yr Ysgol Sul

Yn ddiweddar aeth trip Ysgol Sul Capel y Cysegr, Bethel i'r Wybrnant, Penmachno, sef cartref gwreiddiol yr Esgob William Morgan a oedd y cyntaf i gyfieithu'r Beibl cyfan i'r Gymraeg. Ac ar ôl cyrraedd mwynhaodd pawb, yn rhieni, cyfeillion ac athrawon yr Ysgol Sul becyn bwyd a diod allan yn yr awyr agored. Difyr oedd mynd o gwmpas yr arddangosfa lle gwelwyd paneli yn croniclo hanes y cyfieithu, ac yn y tŷ rhoddwyd sgwrs ddiddorol gan geidwad yr adeilad a chafodd pawb gyfle i brofi amgylchiadau byw yn y cyfnod, lle 'roedd ystafelloedd yn dywyll iawn gan fod y ffenestri mor fach. Gwelwyd casgliad helaeth o Feiblau wedi eu cyfieithu i amrywiol ieithoedd. Ar y ffordd adref galwyd ym Metws y Coed i bob plentyn gael hufen ia, ac ambell i oedolyn hefyd!

'Roedd pawb wedi mwynhau yn fawr iawn a diolch i Geraint Elis am yr holl drefniadau.

Jenkin Griffiths,
Ysgrifennydd Capel y Cysegr, Bethel, Arfon.